Dyma lythyr drafft at gwmni sy'n gwneud offer ar gyfer ceir. Mae angen ei gywiro gan fod ynddo nifer o wallau.

# CWMNI CHWIMWTH

Yr Hen Felin
Llanfynydd
SY68 P5H

Mawth 1

Annwyl Syr / Madam

Ynglŷn â: Peiriant Satnav TXV 146

Ysgrifenaf atoch i gwyno am y peiriant Satnav a brynais dri mis yn ôl.

Yn ôl y llyfryn a ddaeth gyda'r peiriant, mae'r peiriant hwn i fod gyda'r gorau sydd ar y marchnad ar hyn o bryd. Un o'r geiriau sy'n cael ei ddefnyddio i'w ddisgrifio yw "dibynadwy". Gallaf eich sicrhau nad yw'r peiriant a brynais yn ddibynadwy o gwbl.

Mae gennyf fusnes dosbarthu. Rwy'n gweitho ar fy men fy hun, yn cludo nwyddau mae pobl wedi eu harchebu o warws yn Warrington i gartrefi preifat ar hyd a lled Gogledd Cymru. Mae rhai o'r cartrefi y mae'n rhaid i mi fynd iddynt mewn lleoedd anodd i'w cyrraedd. Pan brynais y Satnav felly, roeddwn yn meddwl y byddwn yn gallu mynd i unrhyw le heb unrhyw broblem - ond i mi deipio'r cyfeiriad i mewn i'r peiriant yn iawn.

Roeddwn i'n anghywir. Er i mi gymryd pob gofal wrth deipior cyfeiriadau ac er i mi wneud yn siŵr bod pob manylyn yn gywir, mae'r peiriant wedi fy arwain i bob math o leoedd anaddas. Rwyf wedi cael fy arwain i ganol cae yng nghanol y wlad, i faes parcio gorsaf, i ben mynydd ac i lan llyn. Ar un adeg, dechreuaf yrru i fyny ffordd unffordd gyda'r traffig yn dod i'm cwrdd. Dyna pryd y penderfynais fod yn rhaid i fi ysgrifennu atoch chi i gwyno am y peiriant. Mae gan fy ffrindiau beiriannau tebyg ac maent wrth eu bodd gyda'u rhai nhw, felly mae'n rhaid bod rhyw nam ar yr un a brynais i. Byddwn yn ddiolchgar, felly, petaech chi'n anfon peiriant newydd ………………. yn lle'r un a brynais. Amgaeaf fy mheiriant i yn y pecyn hwn.

Gan edrych ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir

W. Jones